

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Grŵp Trawsbleidiol ar Wyddoniaeth a Thechnoleg

Cyfarfod Blynyddol

Cyfarfod am 6.30pm, nos Fercher 5 Tachwedd, 2014, Ystafell Gynadledda 24, Tŷ Hywel

Cofnodion

Presennol: David Rees AC (Cadeirydd); Eluned Parrott AC; Nick Ramsay AC, Simon Thomas AC, Keith Davies AC, Mark Isherwood AC, ac aelodau allanol: Dr Stephen Benn; Dr Tom Crick; David Jones; Samantha Murphy, Joy Byrne, Sara Williams, Jessica Leigh Jones a Leigh Jeffes

Croeso

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r Cyfarfod Blynyddol, gan gynnwys ein siaradwraig, Jessica Jones

Ethol Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Wyddoniaeth a Thechnoleg

Etholwyd David Rees AC yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod

Ethol tri Is-gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Wyddoniaeth a Thechnoleg

Etholwyd Eluned Parrott AC, Nick Ramsay AC, a Simon Thomas AC yn Is-gadeiryddion ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod

Ethol Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Wyddoniaeth a Thechnoleg

Roedd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol yn fodlon parhau i weinyddu gwaith y Grŵp, ac etholwyd Leigh Jeffes yn Ysgrifennydd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod

Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon 2013-14

Cafodd hwn ei ddsbarthu a'i gymeradwyo

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan: Yr Athro Keith Smith, Yr Athro Faron Moller, Dr Rhys Phillips, Helen Francis, Yr Athro Ian Wells, Dr David Cunnah, Christine O'Byrne a Cerian Angharad

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2014

Cadarnhawyd fod y rhain yn gofnod cywir

Materion yn codi

Nid oedd unrhyw faterion yn codi

Testunau ar gyfer cyfarfodydd yn 2015

Gofynnwyd i'r Grŵp feddwl am awgrymiadau ar gyfer testunau yn 2015, ac anfon y syniadau drwy e-bost at Leigh. Gan fod disgwyl Adroddiad Donaldson yn gynnar yn y flwyddyn newydd, penderfynwyd canolbwyntio ar bynciau STEM yng nghyfarfod mis Mawrth

Y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau gan Gymdeithasau Dysgedig a Chyrff Proffesiynol

Rhoddodd y cynrychiolwyr adroddiad ar weithgareddau presennol a digwyddiadau sydd i ddod

Cyflwyniad: Jessica Leigh Jones, Labordy Mellt Morgan-Botti, Prifysgol Caerdydd

Siaradodd Jessica am: ***Sut i adeiladu Labordy Mellt sy'n unigryw i Ewrop:***

Datblygiad parhaus Labordy Mellt Morgan-Botti Prifysgol Caerdydd. Y Labordy Mellt yw'r unig ganolfan ymchwil i fellt yn Ewrop sy'n cael ei harwain gan Brifysgol ac sy'n gallu creu mellt artiffisial gyda cherrynt mwy na 200,000A. Prif ddiben y labordy yw gwneud gwaith ymchwil i ddeunyddiau a systemau Diogelwch rhag Mellt (LSP) ar gyfer y diwydiant aerofod, ond mae bellach yn mentro ymhellach, gan ddatblygu galluoedd diagnostig a nodweddu newydd sy'n atyniadol i amrywiaeth eang o ddiwydiannau.

Yn dilyn cwestiynau, diolchodd y Cadeirydd i Jessica am ei chyflwyniad

Unrhyw Fater Arall

Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod

Dyddiadau Cyfarfodydd yn ystod 2015

Dydd Mercher 4 Mawrth; Dydd Mawrth 7 Gorffennaf; Dydd Mawrth 3 Tachwedd
Cynhelir y cyfarfodydd i gyd yn Ystafell Gynadledda 21 am 18.30

Cloi'r Cyfarfod

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 19:40